
# Newyddion Bethlehem



www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Tymor yr Hydref 2019




## AR FIN CYRRAEDD!



Na! Dydyn ni ddim wedi prynu'r ail gopi o Salem ar gyfer Bethlehem! Am y tro, craffwch ar y teclyn sy'n taflunio Sian Owen a'i siôl ar y mur tu ôl i'r pulpud. Bydd model tebyg i hwn yn ei le cyn hir.

Offer 'tafluniad hynod fyr' ydy hwn (*ultra short throw* – yn yr iaith fain). Ei fantais ydy y gellir ei osod yn ei le yn y pulpud ar gyfer ei waith (a'i symud oddi yno'n hwylus) – a hynny heb darfu dim ar y rheolau cadwraeth eitha' llym sydd ar yr adeilad. (A rhaid fod yr hen bobol yn gwybod byddai angen gofod gwyn i weithredu fel sgrin pan gynlluniwyd y wal wen lân dan y bwa! Mae'n sgrin cwbl naturiol, eto heb darfu ar wedd yr adeilad.)

I rai sy'n hoffi ystadegau, mae'r trysorydd ar ddeall fod oes o tua 4000 awr i'r bwlb ac mae wedi amcangyfrif bydd angen ei newid ymhen tua 100 mlynedd! Wrth fynd i'r wasg, wyddon ni ddim yn union pwy fydd y cennad ar y Sul arbennig hwnnw – ond mae Delyth Evans (Y Barri), sydd yng ngofal y Suliau, siŵr o fod yn gweithio ar y cês!




*Fel y gwelwch uchod, mae yna waith yn digwydd y tu allan i'r Tŷ Cwrdd. Mae angen trin rhai o'r ffenestri ac ail-baentio'r cyfan o'r gwaith coed o gwmpas yr holl adeilad.*

### I'ch dyddiadur – Oedfaon arbennig o gwmpas y Nadolig hyd yr Hen Galan

**Rhagfyr 15 –** Bore: Gwasanaeth yng Nghartre'r Henoed + Naw Llith a Charol yng nghwmni Côr CF1 – 5.00 yr hwyr

**Rhagfyr 22 -** Drama'r Geni – 10.30

**Rhagfyr 25 -** Gwasanaeth Bore Nadolig - 10.00 o'r gloch

**Ionawr 12 -** Gwasanaeth Plygain – 4.30 yr hwyr

# Suliau – hyd fis Ebrill 2020

**TACHWEDD**
**3.** Delwyn Sion
**10.** Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
**17.** Y Parchg. Allan Pickard
**24.** Y Parchg Ddr Noel A. Davies

**RHAGFYR**
**1.** (bore) Ymarfer Plant.
**5.00** yr hwyr - Delwyn Siôn (Cymun).
**8.** (bore) Ymarfer Plant
**15.** (bore) Ymarfer Plant.
Bore: Gwasanaeth yng Nghartre'r Henoed
**5.00** yr hwyr: Naw Llith a Charol yng nghwmni Côr CF1
**22.** Drama'r Geni
**25.** Gwasanaeth Bore Nadolig - **10.00**
**29.** Wynford Ellis Owen

**IONAWR**
**5** Delwyn Siôn (Cymun)
**12** Dr Neville Evans. Plygain am 4.30 yr hwyr
**19** Parchg Gethin Rhys
**26** Parchg. Owain Llyr Evans

**CHWEFROR**
**2** Alun Johnson (Cymun)
**9** Delwyn Siôn
**16** Parchg Ryan Thomas
**23** Parchg Jeff Williams

**MAWRTH**
**1** Gwyl Ddewi – dan ofal Heulwen
**8** Parchg Allan Pickard
**15** Parchg Ddr R. Alun Evans
**22** Parchg Glyn Tudwal Jones
**29** Parchg Robin Wyn Samuel

**EBRILL**
**5** Parchg Lona Roberts (Cymun)
**12** Delwyn Siôn - Sul y Pasg
**19** Dr Hefin Jones
**26** Parchg Hywel Wyn Richards

## Casgliadau

Mae gan Fethlehem record anhygoel am gyfrannu at achosion elusennol. Y gronfa leol newydd ydy **Canolfan Y Drindod**, sy'n cynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac yn gwneud eu gwaith dyngarol o adeilad yn Four Elms Rd, Caerdydd CF24 1LE (Gweler tud 7).
Yn achos y **Banc Bwyd** roedd Bethlehem wedi casglu £3450 erbyn yr haf a'r eglwys wedi ychwanegu £1000 at y cyfanswm. Fe welwch hefyd lun yn y rhifyn hwn o gyflwyno siec i gronfa **Ysbyty Felindre** – sef cyfanswm o £6500.

**Anfonwn ein cofion at y rhai canlynol sydd heb fod yn eu llawn iechyd yn ddiweddar:**

- June Lloyd
- Avril Pickard
- Betty Williams
- Dafydd a June Huws
- Vi a Gwyn Jones
- Glyn O Phillips
- Eurfryn Thomas
- Mary Edwards

**Rydyn ni'n cydymdeimlo'n ddiffuant iawn â'r canlynol:**

- Llion Llafar a'r teulu – Radur – wedi i Llion golli ei fam, Mair Penri, o'r Parc, ger Y Bala.
- Elen Lewis, Radur, ar golli ei brawd yng nghyfraith.



**Croeso i'r babis!**

- **Lili Olwen** - merch i Daniel a Sophie – *wyres arall i Catrin a Hefin Mathias, Yr Eglwysnewydd*
- **Dafi Rhys** – mab bach arall i Marged a Daniel a brawd i Wil – *ŵyr i Rhodri ac Ann, Pentyrch.*

**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd:**
## Rhodri-Gwynn Jones
**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost:*** rhodrigj@btinternet.com



(Diolch i Dafydd Owen, ffotoNant, am roi ei ganiatâd i ni ddefnyddio'r llun.)

# Urddo Catrin o'r Garth

Flwyddyn ar ôl iddi ennill y goron ym Mhrifwyl Caerdydd, daeth yr adeg i urddo Catrin Dafydd, Gwaelod-y-Garth, i'r Orsedd am ei champ. Dyma hi yn dod wyneb yn wyneb â'r Archdderwydd newydd, Myrddin ap Dafydd (dim perthynas!) yn yr heulwen yn Llanrwst. Fe gofiwch, reit siŵr, mai "Olion" oedd y testun ar gyfer y goron pan enillodd Catrin yn Y Bae – a'r goron honno wedi ei rhoi gan T James Jones a Manon Rhys (Radur). Ac eleni, Jim enillodd y gadair yn Llanrwst! Yn ogystal â'i holl brysurdeb fel un o sgriptwyr Pobl y Cwm a chyflwyno rhaglenni ar fore Sadwrn ar Radio Cymru, mae Catrin wedi cyhoeddi pum nofel. Y ddiweddaraf, "Gwales, enillodd iddi Wobr Ffuglen cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn. Ei nofelau eraill ydy *Pili Pala*, *Y Tiwniwr Piano*, *Random Deaths and Custard* a *Random Births and Love Hearts.*

## *Coron arall i Martin*

*Unwaith eto, rydyn ni'n llongyfarch Martin Huws, Ffynnon Taf - y tro hwn ar ennill Coron Eisteddfod Rhys Thomas James yn Llanbedr Pont Steffan, am ei gasgliad o gerddi rhydd ar y testun 'Cusanau'. Yn y cerddi roedd Martin yn cyferbynnu erchylltra rhyfel â chusanau ei gariad. Mae Martin wedi bod yn newyddiadura gyda Golwg, y Western Mail, Y Byd ar Bedwar, Taro Naw a Cymru'r Byd. Mae'n ŵr a faged yn lleol ac wedi mynegi ei ddyled i'w athro Cymraeg, Elvet Thomas, yn Ysgol Uwchradd Cathays a hefyd ei athro Ffrangeg, Ted Poole.*


(Diolch i Golwg 360 am ganiatáu i ni ddefnyddio'r llun.)

## Colli Nia




Fel croten o Bant-teg, Cwm Tawe, yr oedd y ddiweddar Nia Jones (Ystum Taf) am gael ei hadnabod. Yno ganed hi yn ferch y Mans. Yno hefyd cafodd hi ei haddysg cynradd a pheth o'i haddysg uwchradd cyn i'w thad, y diweddar Barchedig Iorwerth Jones, gael galwad i Gapel Als, Llanelli. Wedi iddi fod drwy Goleg y Drindod, Caerfyrddin, yng Nghaerdydd y dechreuodd hi ar ei gyrfa fel athrawes, cyn symud i'r Alban ac yna'n brifathrawes yn Southall, Llundain. Ar ôl cyfnod gyda'r Mudiad Meithrin, yn ôl yng Nghymru, bu'n athrawes yn Oman cyn dychwelyd unwaith eto'n ôl i Gaerdydd. Er na chafodd hi fwynhau iechyd llawn ar ôl dychwelyd, bu'n weithgar yn lleol, yn arbennig felly yn ein plith ni yma ym Methlehem. Talwyd y deyrnged iddi yng Nghapel Y Wenallt gan ei brawd, Powys. Estynnwn ein y cydymdeimlad didwyllaf â'r holl deulu y bu Nia mor ddiwyd ei gofal drostyn nhw.

## Te Haf a phenllanw casglu at Felindre

Daeth carfan gref o aelodau Bethlehem ynghyd i fwynhau te haf ac i weld cyflwyno siec o £6,500 i gronfa ymchwil cancr ysbyty Felindre. Wrth dderbyn y cyfraniad, bu Rhian Gibson, Cyfarwyddwr Elusen GIG Felindre, yn egluro rhai o ddatblygiadau diweddaraf yr ymchwil a'r gofal sydd ar waith yn y ganolfan holl-bwysig hon yn Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. (Yn y llun gwelir Delwyn Sion, arweinydd Bethlehem yn trosglwyddo ffrwyth y gweithgaredd casglu fu'n digwydd ymhlith yr aelodau dros gyfnod o ddwy flynedd).







*Llongyfarchiadau i'r Parchedig Ddr. R. Alun Evans ar gael ei ethol yn Llywydd Cymrodorion Caerdydd am 2019-20.*

## So-Ffa So Gwd !!!



Os ewch am dro i'r festri ar ôl y Cymun i ga'l dishgled fe welwch chi fod 'na ddwy soffa wedi glanio yno o wlad Abba.

Ma' nhw at ddefnydd yr hen a'r ifanc, ardal fach gartrefol i'r Ysgol Sul, i ddosbarth ieuenctid newydd Geraint Huws (a diolch o galon i Geraint am gynnig gwneud,) ac i'r rhai "llai ifanc" yn ein plith wedi'r oedfa. Felly, wedi ymdrechu ymdrech deg gyda'r sol-ffa yn y Capel, fe gewch orffwys ar y so-ffas yn y Festri !!! Joiwch!

***Delwyn*.**


Delwyn yn diddanu

Dechreuodd ein tymor trwy groesawu Delwyn Sion i'n plith. Y 'testun' yn syml: 'Delwyn Sion'. Yn ei ffordd ddi-hafal cawsom ddarlun o'i fywyd - o'i blentyndod hyd at ddyddie coleg. Gwelsom lunie o'i deulu bore oes ac wrth gwrs, cawsom ganeuon i gyfeiliant y gitâr. Cawsom ein hatgoffa taw "crwtyn o Aberdâr" yw Delwyn, ond symud yno wnaeth ei rieni, ei dad o Ogledd Penfro a'i fam o Frycheiniog . Cawsom hanes a darlun hoffus o'r" ddau Wil" yn y teulu ac ystyr i'r gân er cof amdanynt.
Mae gan Delwyn atgofion melys am ei ddyddiau yn Ysgol Rhydfelen, yn ffodus i fod yno yng nghyfnod Lili Richards a nifer o athrawon talentog eraill. Yno hefyd daeth y diddordeb mewn chwarae gitâr (wedi ychydig o ddylanwad gan Dudley Newberry!), sut aeth ati i brynu ei gitâr gyntaf a dysgu'r tri chord hanfodol!
Ymlaen wedyn i Brifysgol Aberystwyth, eto yn yng nghyfnod aur y 70au a chwrdd â chriw o gerddorion ifanc oedd, fel Delwyn, yn ysu am gyfansoddi caneuon pop a'u perfformio ar lwyfan. Ie, cyfnod Hergest a "mi oedden nhw'n ddyddie da dros ben".
Mae Delwyn yn dal i gyfansoddi. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar CD newydd fydd yn cynnwys caneuon am ei deulu, gan gynnwys ei gefnder Max Boyce. I orffen ei gyflwyniad cawsom ni 'Ferched Bethlehem' glywed hwiangerdd deimladwy iawn am "Bopa Bet". Diolch Delwyn am gyflwyniad dirdynnol a diddorol i'r Cwrdd Merched ac yn ogystal am dy ymrwymiad a'th waith di-flino inni ym Methlehem bob amser.

***Eirlys Lamb***

# Ymweliad â'r Cynulliad

Onid yw hi'n rhyfedd sut mae rhywbeth yr ydych wedi ei weld ar y teledu yn wahanol pan fyddwch yno yn bersonol? Dyna brofiad criw y cwrdd merched pan fuom ar ymweliad â'r Senedd yn y Bae ddydd Mawrth, Hydref yr 8fed. Mentrodd tuag ugain ohonom ferched ac un neu ddau o ddynion yno i gael ein tywys gan Richard Jones, mab Marian,


*Cip, drwy'r gwydr, ar rai o'r ymwelwyr tramor oedd yn y Cynulliad yr un pryd â ni*


*Ein tywysydd, Richard, ynghyd â'r aelodau o Fethlehem, yn y Cynulliad.*

aelod ffyddlon o'n cwrdd. Yno yr oedd yn y cyntedd yn ein haros yn wên lydan llawn croeso. Roedd nifer o grwpiau eraill yno hefyd yn cynnwys pobol ifanc o Ffrainc a chriw o Uganda oedd wedi gefeilio gyda Phontypridd. Braf oedd eu gweld yn eu dillad lliwgar ar ddiwrnod digon glawog a thywyll. Daeth Richard lan aton ni i'r caffi i drafod trefn yr ymweliad. Diddorol oedd gweld aelodau o'r cynulliad yn cerdded o gwmpas. Yn gyntaf draw â ni i'r siambr oedd yn wag. Esboniodd Richard ble roedd pob plaid yn eistedd. Dywedodd sut roedd y siambr yn gweithio, sut roedd yr aelodau yn pleidleisio a lle fyddai'r lle gorau i ni eistedd i'w gweld wrth eu gwaith. Aethom wedyn i weld un o'r 5 stafell bwyllgor. Yna canodd dwy gloch i rybuddio'r aelodau fod hi'n amser ymgynnull. Roedd hi'n ddiwrnod gofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ac felly nôl â ni i'r senedd i wrando ar y ddefod wythnosol. Roedd yna amrywiaeth o bynciau yn cael eu codi megis, cynhesu byd eang, rheilffyrdd, iechyd, a dadl a ddylid cadw'r enw 'Senedd' yn unig ar y sefydliad neu roi teitl dwyieithog iddo. Mae ein dyled yn fawr i Richard. Diolch am y croeso cynhesol, am yr esbonio clir ac am fod mor barod i ateb ein cwestiynau. Diolch am brynhawn diddorol a da.

***Joy Glyn***

**Dechrau meddwl am Ddathlu!**

# *Bethlehem 2022*

Na, nid camgymeriad ydi'r uchod, ond ffordd i'ch atgoffa rhag blaen bod y flwyddyn honno yn mynd i fod yn un arbennig i ni yma ym Methlehem.

**Pam?**

Wel, os edrychwch ar fur allanol y capel, cyn gwneud eich ffordd i mewn, yna fe welwch mai yn 1872 yr adeiladwyd y capel presennol, ac y bydd felly yn 150 mlwydd oed yn 2022.

Er y byddwn o hyd yn ymwybodol bod yr achos ei hun yn mynd yn ôl yn bellach na hynny i'r flwyddyn 1832, a bod y capel gwreiddiol hwnnw, sydd bellach yn dy annedd, wedi ei leoli ar "School Lane".

Wni ddim sawl capel arall a adeiladwyd yng Nghymru yn 1872, ond fe agorwyd Coleg Prifysgol Aberystwyth yn ystod yr un flwyddyn (ac hefyd y *Museum of Modern Art* yn Efrog Newydd).

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Yellowstone fel parc cenedlaethol cyntaf y byd yn ystod 1872, ac fe ffurfiwyd Clwb Pêl-droed Rangers, yn yr Alban, a chynnal cystadleuaeth Cwpan Pêl-droed Lloegr am y tro cyntaf hefyd 'run flwyddyn.

Fe hwyliodd y *Mary Celeste* o borthladd Efrog Newydd am Genoa yn yr Eidal yn 1872, ac fe fu echdoriad ar Fynydd Vesuvius.

Nid oedd unrhyw sôn am Brecsit, a Gladstone, nid Johnson, oedd Prif-weinidog gwledydd Prydain ar y pryd!

Siŵr o fod y cytunwch bod canrif a hanner yn fan cyrraedd nodedig fydd yn werth ei gofnodi, a phriodol felly ydi ein bod yn cael digon o gyfle i feddwl am y ffordd orau o wneud hynny.

Awgrymiadau yn unig yw'r canlynol, ond byddai'n dda cael mewnbwn gan bawb, o'r ieuengaf hyd at yr hynaf o'n haelodau a'n cyfeillion, fel bod Bethlehem, Gwaelod-y-garth, trwy gofio am ei gorffennol, yn datgan yn glir ei bod "yma o hyd" ac yn paratoi yn ffyddiog am ddyfodol llewyrchus, yn union fel y gwnaeth y cwmwl tystion rheini yn 1872 wrth ymroi i ehangu ac adeiladu eu capel newydd.

- **Dynodi wythnos o ddathlu yn 2022**
- **Dylunio logo "*Bethlehem 2022*" i hybu'r dathlu**
- **Cynnal oedfa arbennig;**
- **Cynnal arddangosfa o luniau a sain;**
- **Cynnal Cymanfa Ganu;**
- **Comisiynu emyn / cerdd/ cerddoriaeth i ddathlu'r achlysur;**
- **Comisiynu cyfrol yn croniclo hanes y capel;**
- **Darlith ddathlu;**
- **"…athon" o rhyw fath ar gyfer yr Ysgol Sul / Aelodaeth**

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich syniadau, ond yn y cyfamser ewch trwy'ch cypyrddau a'ch dreiriau i weld a oes peth o hanes Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn llercian yno heb weld golau ddydd ers tro byd - lluniau, taflenni, tap sain, ffilm, ysgrif, sgript, ayyb.

A hithau bron yn 2020, cofier mai buan iawn wedyn y bydd 2022 ar ein gwarthaf.

***Rhodri-Gwynn Jones***

**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd:**

## Rhodri-Gwynn Jones

**Ffôn:** 029 20 89 00 39

***e-bost:*** rhodrigj@btinternet.com



Carol Hardy a Wynford Ellis Owen fu'n arwain yr oedfa ar y Sul Adferiad ym Methlehem ar Hydref 27.

**Tri Bedydd * Celfi Newydd i'r festri * Diolch Canolfan Y Drindod**



(uchod): Bedydd Aneirin, mab Rhian a Mike Thomas, a brawd bach i Eirlys
*21.07.19*



(uchod): Bedydd Eira Fflur, merch Dr Llinos a Mike Jones – a chwaer fach Elin.
*08.09.19*

(isod): Bedydd Daniel, - mab Sara ac Ed Crosse
*15.09.19*





Daeth gair o ddiolch (isod) i Fethlehem am i ni ddewis Canolfan Y Drindod fel ein helusen leol (a hynny oddi wrth un o blant yr eglwys – Fflur Angharad o Ffynnon Taf gynt).

I Bawb ym Methlehem G-Y-G,
Nodyn bach i ddiolch yn fawr am ein dewis ni fel eich elusen am y ddwy flynedd nesaf. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi – byddai'n wych eich cyflwyno i rywfaint y gwaith sy'n digwydd yng Nghanolfan y Drindod, fe wnai ddechrau meddwl am rai syniadau!
Cofion cynnes,
Fflur Angharad
Gweinyddwraig Y Drindod

**Trinity Centre**
**Canolfan y Drindod**

## Drws Agored 2019 – 2020 – Holi'r Golygyddion



**Mae tymor newydd "Drws Agored" ar agor ers mis Medi a'r thema eleni ydi "beth mae'n olygu i fod yn olygydd?"** Diolch i'r Parchedig R Alun Evans am feddwl am deitl mor grafog a dwys ar yr un pryd, ac mae'r arlwy sydd wedi ei pharatoi yn un hynod o ddiddorol, heriol ac addysgiadol i'r mynychwyr a'r cyflwynwyr fel ei gilydd.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yng nghwmni dau olygydd – Alun Tudur, yn ei swyddogaeth fel Golygydd "Y Tyst" (wythnosolyn), ac Owain Llyr Evans, sy'n Olygydd y cylchgrawn "Cristion" (deufisolyn).

**COLLI CWSG**

Cawsom gip ar y chwys a'r llafur sydd ynghlwm wrth sicrhau bod yr wythnosolyn yn mynd i'w wely o fewn amserlen benodol, er y gallai hyn olygu bod y Golygydd ei hun yn gorfod hepgor rhai o'i oriau cwsg er sicrhau hyn. Brwydr wahanol oedd yn wynebu'r deufisolyn wrth i'r Golygydd gydnabod bod ambell i addewid am gyfraniad ar themâu arbennig ar gyfer y "rhifyn nesaf" yn gyndyn o gyrraedd mewn amser!

Dros dro yn unig y bwriedid i olygydd "Y Tyst" fod yn ei swydd, a hynny yn dilyn cais brys gan ei frawd, cyn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, i ymgymryd a'r dasg am "rhyw 'chydig wythnosau". Os cofiaf yn iawn mae cyfnod o tua naw mlynedd wedi mynd heibio ers hynny!

**Y PRIS AR GOLL**

Cyfaddefodd golygydd "Cristion" iddo anghofio roi'r pris ar glawr y rhifyn cyntaf iddo ei olygu, ac felly, yn dechnegol, byddai gan bawb a "*brynodd*" gopi bryd hynny yr hawl i ad-daliad petaent yn mynnu!

Serch y gofid a'r troeon trwstan, "braint" oedd cydnabyddiaeth y ddau o fod yn cyflawni'r gwaith yma ar ein rhan. Diolch iddynt am ddod drwy'r Drws Agored i'n plith a rhannu eu profiadau a'u dyheadau ar gyfer dyfodol y naill gylchgrawn a'r llall i 2020 a thu hwnt. ***(Rh-G J)***

**ANGHARAD MAIR**

Yng nghyfarfod mis Hydref o Drws Agored, Angharad Mair ddaeth atom i sôn am ei gwaith fel Golygydd Rhaglenni i gwmni Tinopolis yn Llanelli. Pwysleisiodd mai rhan o dîm oedd hi fel Golygydd fyddai'n trin a thrafod pa eitemau fyddent yn eu darlledu ar raglen HENO. Soniodd am yr heriau oedd yn eu hwynebu wrth baratoi rhaglen fyw 5 noson yr wythnos a Phrynhawn Da bob dydd hefyd. Roedd yn awyddus fod y rhaglenni'n adlewyrchu bywyd Cymru ben baladr a'n holl gyfoeth diwylliannol. Dywedodd y byddai'n croesawu unrhyw awgrymiadau a syniadau fyddai gennym i gyflwyno i Dîm Tinopolis ar gyfer rhaglenni'r dyfodol. Roeddem i gyd yn gwerthfawrogi fod Angharad wedi dod atom a rhoi orig o'i bywyd prysur i rannau ei phrofiadau gyda ni. ***(ED – Radur)***

## Diolch i bawb gyfrannodd i'r rhifyn hwn.

Os ydyn ni wedi anghofio rhywun neu rywbeth, rydyn ni'n ymddiheuro. Rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda am ddigwyddiadau Bethlehem rydych chi wedi bod yn rhan ohonyn nhw ac anfonwch unrhyw wybodaeth at: tycnau@aol.com (neu soniwch wrth Ifan yn y cwrdd!)